Rhif yr Ymchwil Gymdeithasol: 26/2020
Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2020

# Themâu allweddol sy’n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru

Dangosyddion Cenedlaethau’r Dyfodol: **19** (amddifadedd materol); **23** (gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol); **25** (diogelwch cymunedol); **26** (bodlonrwydd ar yr ardal leol); **27** (ymdeimlad o gymuned); **36** a **37** (y Gymraeg).

---

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r themâu allweddol y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â phob un o'r saith o ddangosyddion llesiant cenedlaethol. Mae’n seiliedig ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Mae’r adroddiad yn edrych ar y tebygrwydd a’r gwahaniaethau rhwng y ffactorau unigol sy’n gysylltiedig â'r saith o ddangosyddion cenedlaethol hyn. Paratowyd adroddiad mwy manwl ynghylch ffactorau allweddol pob un o’r saith dangosydd (sydd wedi’u rhestru isod).

- **CD19**[1] – Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 19: *Amddifadedd materol:* ‘Canran y bobl sy’n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol (tlodi)’.
- **CD23**[2] – Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 23: *Gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol:* ‘Canran y bobl sy’n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol’.
- **CD25**[3] – Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 25: *Diogelwch yn yr ardal leol:* ‘Canran y bobl sy’n teimlo’n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio’.
- **CD26**[4] – Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 26: *Bodlonrwydd ar yr ardal leol:* ‘Canran y bobl sy’n teimlo’n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.’
- **CD27**[5] – Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 27: *Ymdeimlad o gymuned:* ‘Canran y bobl sy’n cytuno eu bod yn perthyn i’r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch’.
- **CD36**[6] - Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 36: *Siarad Cymraeg:* ‘Canran y bobl sy’n siarad Cymraeg bob dydd ac sy’n gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau Cymraeg’.
- **CD37**[6] - Dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol 37: *Siarad Cymraeg:* ‘Canran y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg’.

Ffactorau demograffig ac argraffiadau o gydlyniant cymunedol oedd y ffactorau allweddol a oedd yn gysylltiedig â’r dangosyddion yn gyffredinol. Ffactorau allweddol ar gyfer cwpl o’r dangosyddion yn unig oedd ffactorau eraill, fel siarad Cymraeg a ffactorau economaidd-gymdeithasol.

---

[1] Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol?
[2] Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol?
[3] Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn teimlo’n anniogel yn eu hardal leol?
[4] Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn teimlo’n fodlon ar yr ardal lle maent yn byw?.
[5] Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol?
[6] Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg?

## 1. Y Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgysylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith o nodau llesiant[7].

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ceisio gwneud hyn drwy fesur cynnydd yn erbyn 15 o'r dangosyddion cenedlaethol.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg sy'n cael ei gynnal ar raddfa fawr, wyneb yn wyneb, ac mae'n casglu gwybodaeth am amrywiaeth eang o faterion. Yn 2018-19, casglodd yr arolwg wybodaeth gan **tua 12,000 o oedolion 16 oed a hŷn a oedd wedi cael eu dethol ar hap.**

## 2. Crynodeb o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesurau llesiant cenedlaethol

Mae **Tabl 1** yn dangos y prif fathau o ffactorau y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â phob un o'r saith o ddangosyddion llesiant cenedlaethol. Mae hyn yn ein helpu ni i weld tebygrwydd a gwahaniaethau posibl rhyngddynt.

Mae tic (✓) yn golygu bod ffactor yn gysylltiedig â'r mesur cysylltiedig. Er enghraifft, gallwn weld bod **ffactorau demograffig** yn gysylltiedig â **phob un** o'r dangosyddion hyn, ac mae **cymunedau cydlynus** yn gysylltiedig â **phob un heblaw am un**. Trafodir y ffactorau sy'n gysylltiedig â'r dangosyddion yn fwy manwl yn adran 3.

[7] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael ar-lein.

**Tabl 1.** Y themâu allweddol sy'n gysylltiedig â dangosyddion cenedlaethol dethol.

*Mae blychau wedi'u ticio (✓) yn dangos y canfuwyd bod thema yn gysylltiedig â* ***mesur cyfun***[8] *y dangosydd cenedlaethol cysylltiedig.*

| | **Dangosyddion llesiant cenedlaethol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Themâu** | **CD19 Amddifadedd materol** | **CD23 Dylanwadu ar benderfyniadau lleol** | **CD25 Teimlo'n ddiogel** | **CD26 Bodlonrwydd ar yr ardal** | **CD27 Ymdeimlad o berthyn** | **CD36 Siarad Cymraeg o ddydd i ddydd** | **CD37 Gallu siarad Cymraeg** |
| Ffactorau demograffig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ffactorau economaidd-gymdeithasol | | | ✓ | | | ✓ | |
| Nodweddion yr aelwyd | | | | | | ✓ | ✓ |
| Ffactorau iechyd | ✓ | | | ✓ | | | |
| Ffactorau llesiant | ✓ | | | | ✓ | | |
| Nodweddion yr aelwyd | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Nodweddion yr ardal leol | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Cydlyniant cymunedol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Diogelwch cymunedol | | | | ✓ | ✓ | | |
| Democratiaeth leol | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Gwasanaethau awdurdod lleol | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Y Gymraeg | | | | ✓ | | | |

[8] Mae rhai mesurau, fel diogelwch cymunedol ac ymdeimlad o gymuned yn fesurau unigol a oedd yn cynnwys cyfuniad o sawl cwestiwn. Yn yr adroddiadau ymchwil llawn, rydym yn dadansoddi'r mesurau cyfun *a'r* cwestiynau unigol.

### 3. CD19: *Amddifadedd materol*

**Ffactorau demograffig**: Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o fod yn byw mewn amddifadedd materol (mesur o dlodi ac effaith hynny) ac roedd oedolion 45-54 oed hefyd yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd (o'u cymharu ag oedolion 75 oed a hŷn). Roedd pobl heb unrhyw gymwysterau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â'r rheini a oedd â chymwysterau 'Safon Uwch' ac addysg uwch.[9]



**Ffactorau iechyd**: Roedd pobl a oedd yn dweud eu bod yn byw â salwch neu anabledd hirsefydlog sy'n cyfyngu ar eu gallu i fyw eu bywyd bob dydd yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol.



**Ffactorau llesiant**: Roedd pobl a oedd yn dweud bod eu bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd neu eu llesiant meddyliol yn 'isel' yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol.

**Nodweddion yr aelwyd**: Roedd pobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol o'u cymharu â phobl a oedd yn berchen ar eu tŷ. Hefyd, roedd pobl a oedd â phlant ar eu haelwyd yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd. Roedd pobl a oedd yn byw ar aelwydydd heb fynediad i'r rhyngrwyd hefyd yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol, ac roedd hyn yn wir am bobl nad oedd ganddynt fynediad i gar neu fan hefyd.

### 4. CD23: *Gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol*

**Ffactorau demograffig:** Roedd pobl iau yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol, fel yr oedd pobl a oedd yn llai cymwysedig (is na TGAU gradd C).

**Cydlyniant cymunedol**: Roedd pobl a oedd yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol (eu bod yn cael ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol, bod pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn parchu ei gilydd) yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Yn yr un modd, roedd pobl a oedd yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol.



**Democratiaeth leol:** Roedd pobl a oedd yn deall beth mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran eu cymuned leol (ee bod yn gyswllt rhwng y gymuned leol a'r cyngor drwy ymateb i ymholiadau a chyfleu penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y cyngor a fydd yn effeithio ar y gymuned) yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol. Roedd hyn yn wir am bobl a oedd yn teimlo bod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol hefyd.

[9] Nid yw'r math o ddadansoddiad ynddo'i hun yn dweud wrthym a oedd ffactor wedi achosi canlyniad, neu a oedd canlyniad wedi achosi ffactor – felly, er enghraifft, gallai bod mewn amddifadedd materol arwain at rywun yn cael llai o gymwysterau, neu fel arall.



**Gwasanaethau awdurdod lleol:** Roedd y grwpiau canlynol hefyd yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol: 1) pobl a oedd yn fodlon ar argaeledd eu gwasanaethau lleol; 2) pobl a allai gael gafael yn rhwydd ar wybodaeth am eu hawdurdod lleol; a 3) pobl a oedd yn cytuno bod eu hawdurdod lleol wedi ymgynghori â phobl leol ynghylch penderfyniadau pwysig.

## 5. CD25: *Diogelwch yn yr ardal leol*

**Ffactorau demograffig:** Canfuwyd bod pobl o dan 75 oed yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol (wrth gerdded o amgylch eu hardal leol, gartref, ac wrth deithio mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus). Roedd dynion yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.



**Ffactorau economaidd-gymdeithasol:** Canfuwyd bod peidio â bod mewn amddifadedd materol yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.



**Cydlyniant cymunedol**[10]: Roedd pobl yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel os oeddent yn cael ymdeimlad o berthyn i'w cymuned leol, neu'n cytuno bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn eu cymuned leol.

**Nodweddion yr ardal leol**: Pobl a oedd fwyaf anfodlon ar lefel y traffig a'r llygredd sŵn yn eu hardal leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.

## 6. CD26: *Bodlonrwydd ar yr ardal leol*

Canfuwyd bod **ffactorau demograffig** yn dylanwadu ar bobl yn teimlo bodlonrwydd ar eu hardal leol. Pobl 35 i 44 oed oedd y mwyaf tebygol o fod yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.



**Ffactorau iechyd**: Roedd pobl a fyddai'n dweud mai 'gweddol' oedd eu **hiechyd cyffredinol** yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol, o'u cymharu â phobl a fyddai'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.



**Nodweddion yr aelwyd**: Canfuwyd bod pobl nad oedd ganddynt blant yn byw ar yr aelwyd gyda nhw yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.

**Nodweddion yr ardal leol**: Roedd pobl a oedd yn byw mewn trefi ac ardaloedd ar y cyrion yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol na'r bobl a oedd yn byw mewn pentrefi bach. Roedd pobl a oedd yn byw yn Sir Fynwy, ym Mro Morgannwg ac yng Ngwynedd yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardaloedd

[10] **Ymdeimlad cyffredinol o gymuned** – teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol, ymdeimlad bod aelodau'r gymuned yn cyd-dynnu'n dda, a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.


lleol fel lle i fyw, o'u cymharu â phobl a oedd yn byw yn Sir Benfro, ym Mlaenau Gwent ac yn Rhondda Cynon Taf.



**Cydlyniant cymunedol:** Roedd pobl a oedd yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, a phobl a oedd yn teimlo bod pobl leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth, yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.

**Democratiaeth leol:** Roedd pobl a oedd yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu hardal leol yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.





**Gwasanaethau awdurdod lleol:** Roedd pobl a oedd yn fodlon ar argaeledd cyffredinol gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Roedd hyn hefyd yn wir am bobl a oedd yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth am eu hawdurdod lleol yn y dull o'u dewis.

**Y Gymraeg**: Pobl nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn gyffredinol, ond a oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg (hynny yw, yn gallu siarad ychydig o eiriau), oedd y grŵp a oedd yn fwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol.



### 7. CD27: *Ymdeimlad o gymuned*

**Ffactorau demograffig**: Pobl hŷn (75 oed a hŷn) oedd y mwyaf tebygol o gael ymdeimlad cyffredinol o gymuned.



**Deiliadaeth**: Perchen-feddianwyr oedd y mwyaf tebygol o deimlo bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth, o'u cymharu â phobl mewn tai rhent neu dai cymdeithasol.

**Ffactorau llesiant**: Roedd pobl a oedd yn fodlon iawn ar eu bywyd yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cyffredinol o gymuned, a theimlo eu bod yn perthyn i gymuned yn eu hardal leol. Roedd pobl â llesiant meddyliol uchel yn fwy tebygol o deimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

**Diogelwch cymunedol**: Roedd pobl a oedd yn teimlo'n ddiogel (wrth gerdded o amgylch eu hardal leol, gartref, ac wrth deithio mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus) yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cyffredinol o gymuned.

**Cydlyniant cymunedol:** Roedd pobl a oedd yn fodlon iawn ar eu hardal leol fel lle i fyw yn fwy tebygol o gael ymdeimlad o gymuned.

**Democratiaeth leol**: Roedd pobl a oedd yn deall yn dda beth oedd eu cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran eu cymuned leol yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cyffredinol o gymuned. Roedd pobl a oedd yn teimlo bod eu cynghorydd lleol yn ymgynghori â phobl leol wrth wneud penderfyniadau yn fwy tebygol o deimlo bod



pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda. Roedd pobl a oedd yn credu bod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned yn fwy tebygol o gael ymdeimlad o berthyn i'r gymuned yn eu hardal leol.



**Gwasanaethau awdurdod lleol**: Roedd pobl a oedd yn fodlon ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau da yn eu hardal leol yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cyffredinol o gymuned.

**Y Gymraeg**: Roedd pobl a oedd yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn fwy tebygol o deimlo bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.



## 8. CD36 - 37 *Y Gymraeg*

**Ffactorau demograffig**: canfuwyd bod y ffactorau demograffig canlynol yn gysylltiedig â siarad Cymraeg yn gyffredinol, ac o ddydd i ddydd:


- Roedd **menywod** yn fwy tebygol na dynion o siarad Cymraeg.
- Roedd **pobl o gefndiroedd gwyn** yn fwy tebygol na grwpiau ethnig eraill o siarad Cymraeg.
- Roedd pobl a oedd wedi **cael lefel uchel o addysg** (cymhwyster lefel gradd neu uwch) yn fwy tebygol o siarad Cymraeg.

Roedd **Cristnogion** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg a siarad Cymraeg yn rheolaidd o ddydd i ddydd. Canfuwyd bod gan **bobl iau** (16 i 24 oed) siawns uwch o siarad Cymraeg yn gyffredinol.



Canfuwyd bod **ffactorau economaidd-gymdeithasol** yn gysylltiedig â phobl yn gallu siarad Cymraeg, a  gallu siarad ychydig o eiriau Cymraeg yn unig. Roedd pobl a oedd yn **gweithio** ar hyn o bryd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na phobl ddi-waith.

Canfuwyd bod **nodweddion yr aelwyd** yn gysylltiedig â phobl yn gallu siarad Cymraeg, a siarad Cymraeg o ddydd i ddydd. Roedd pobl a oedd yn byw ar **aelwydydd gyda phlant** yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn gyffredinol. Roedd pobl a oedd yn berchen-feddianwyr yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg.



Canfuwyd bod pobl sy'n byw mewn **ardaloedd gwledig** yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg, a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Pobl a oedd yn byw yng **Ngwynedd** oedd y mwyaf tebygol o allu siarad Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Dyma'r tair ardal lle'r oedd pobl yn fwyaf tebygol o allu siarad Cymraeg a siarad Cymraeg yn rheolaidd o ddydd i ddydd: **Gwynedd**, **Ynys Môn** a **Cheredigion**. Dyma'r tair ardal lle'r oedd pobl yn lleiaf tebygol o siarad Cymraeg: **Casnewydd**, **Torfaen** a **Sir Fynwy**.

Roedd gallu siarad Cymraeg, a siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, yn gysylltiedig â phobl yn cael **ymdeimlad o gymuned** yn eu hardal leol.



Awdur yr adroddiad: Caitlin Hafferty

*Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.*

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siobhan Evans
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: Siobhan.Evans@gov.wales

---

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-354-8